Coetir Anian Cambrian Wildwood

## SWYDD DDISGRIFIAD

**TEITL Y SWYDD**

Rheolwr Codi Arian

**CYFLOG**

Cyflog llawn amser £27,181 - £35,233 (o Ebrill 2024) pro rata os yn rhan amser.

**PWRPAS A CHWMPAS Y SWYDD**

**Lleoliad:** Gweithio o bell, o fewn pellter rhesymol i alluogi teithio i safle'r prosiect ger Machynlleth, canolbarth Cymru o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Swyddfa ar gael yn Aberystwyth os oes angen.

**Oriau:** Llawn amser neu ran-amser, 3-5 diwrnod yr wythnos (22.5-37.5 awr) gydag oriau gwaith hyblyg. Disgwylir i'r ymgeisydd weithio'n hyblyg mewn ymateb i derfynau amser ariannu.

Cyfle i weithio i elusen Gymreig ysbrydoledig sy’n adfer byd natur ac yn cysylltu pobl â’r lle gwyllt hwn, mewn ardal ddaearyddol odidog.

Mae Coetir Anian (Cambrian Wildwood) yn rheoli safle 142 hectar ger Machynlleth, gan adfer cynefinoedd a rhywogaethau i sefydlu tirwedd naturiol lewyrchus ac ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl trwy raglenni addysg, lles a chysylltiadau natur.
Am ragor o wybodaeth gweler www.coetiranian.org

Mae Coetir Anian yn chwilio am Reolwr Codi Arian newydd wrth i’r elusen gychwyn ar gyfnod newydd cyffrous yn ei gwaith adfer natur a chysylltiadau tir a phobl. Mae llawer o’r cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ei le ac mae’r ffocws ar ariannu’r gwaith o gyflawni ein strategaeth newydd, a fydd yn pwysleisio ymgysylltu cymunedol cynhwysol ac adrodd straeon ochr yn ochr ag adfer natur ymarferol. Byddai profiad gyda'r Loteri Treftadaeth neu geisiadau tebyg o fantais.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr a staff eraill i weithredu strategaeth cynhyrchu incwm sy'n cefnogi gwaith Coetir Anian trwy ffrydiau incwm anghyfyngedig a chyfyngedig.

Byddai'r rôl hon yn addas ar gyfer rhywun sydd â phrofiad o arwain ceisiadau am grantiau, yn enwedig mewn elusen fach-canolig ei maint. Bydd profiad codi arian cymunedol a rhoddwyr mawr hefyd yn fanteisiol, yn ogystal â gwybodaeth am gyllid yn y sector amgylcheddol. Bydd angen i chi fod yn hyblyg, yn drefnus, yn ddysgwr cyflym, bod â llawer o flaengaredd a bod yn weithiwr tîm cryf.



Mae Sefydliad Tir Gwyllt Cymru yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif 1158185
Wales Wild Land Foundation CIO is a Charity Registered in England and Wales Number 1158185

**SAFLE YN Y SEFYDLIAD**
**Adroddiadau i:** Cyfarwyddwr.

**Yn gyfrifol am:** Dim cyfrifoldebau rheoli llinell.

**Cyfrifoldebau Cyllidebol:** Datblygu cyllidebau costau prosiect a chraidd gyda'r Cyfarwyddwr

**Lleoliad:** Gweithio o bell o gartref, gyda'r opsiwn i weithio o swyddfa Coetir Anian yn Aberystwyth os dymunir.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**
***Datblygu strategaeth***

Gan weithio gyda’r Cyfarwyddwr, datblygu a chyflwyno’r strategaeth cynhyrchu incwm fel rhan o gynllunio busnes yr elusen.

Cynorthwyo i ddatblygu cyllidebau codi arian blynyddol, cynlluniau prosiect a chyllidebau prosiect.

Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o waith a gwerthoedd yr Elusen i gyfleu’r rhain i gynulleidfaoedd o roddwyr a chyllidwyr.

Monitro effeithiolrwydd y gweithgareddau cynhyrchu incwm amrywiol.

Datblygu a chynnal llif cryf o roddwyr a chyllidwyr, gan ddefnyddio sgiliau stiwardiaeth, ymchwil, dadansoddi a chynllunio.

Ymchwilio a chynghori ar ffynonellau incwm newydd a fydd yn helpu i gyflawni ein strategaeth, er mwyn amrywio ein hincwm.

Sicrhau bod trefniadau codi arian yn cael eu llywodraethu’n dda, gan gynghori’r Cyfarwyddwr a’r ymddiriedolwyr yn ôl yr angen.

***Sicrhau grantiau gan y Llywodraeth, y Loteri, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau***

Cynhyrchu cynigion cais ysgrifenedig am arian o ansawdd uchel a gwneud cyflwyniadau llafar fel y bo'n briodol i sicrhau grantiau mawr a bach.
.


Mae Sefydliad Tir Gwyllt Cymru yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif 1158185
Wales Wild Land Foundation CIO is a Charity Registered in England and Wales Number 1158185

Cydlynu a choladu ceisiadau ariannu mawr a chymhleth.

Nodi a gwneud ceisiadau am arian i ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol newydd.

Cynnal perthnasoedd presennol ag ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol trwy raglen weithredol gan sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Coetir Anian fel y gellir nodi cyfleoedd a manteisio arnynt.

Cynllunio monitro a gwerthuso prosiectau unigol, gan weithio gyda chydweithwyr sy'n cyflwyno'r prosiect.

Rheoli ymrwymiadau adrodd, gan weithio gyda'r Cyfarwyddwr a sicrhau mewnbwn gan gydweithwyr sy'n cyflwyno'r prosiect.

Sefydlu prosesau ar gyfer hawliadau grant.

Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i sicrhau bod ymrwymiadau cyhoeddusrwydd y cyllidwr yn cael eu bodloni.

***Denu rhoddion unigol (rhoddwyr mawr ac apeliadau)***

Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu a gweithredu rhaglen ymgysylltu i ddenu incwm o ffynonellau presennol ar y gronfa ddata rhoddwyr ac i ddenu rhoddwyr newydd. Mae hyn yn debygol o gynnwys dwy apêl bob blwyddyn.

Datblygu rhaglen rhoddwyr mawr i sefydlu a stiwardio perthnasoedd gyda darpar roddwyr gwerth uchel.

Olrhain, meithrin a rheoli perthnasoedd â darpar roddwyr, gan gynnwys datblygu systemau a phrosesau clir, diwydrwydd dyladwy, datblygu cynigion ac adrodd.

Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i ddarparu profiad cefnogwyr eithriadol ar draws yr holl weithgareddau cyfathrebu a chodi arian.

Cynrychioli'r elusen gyda darpar roddwyr pan fo'r achlysur yn galw.

Gweithio gyda staff eraill yr elusen i sicrhau bod gweithgareddau a chyfathrebu’r elusen yn cefnogi ymdrechion codi arian.

Sicrhau bod cofnodion cefnogwyr a chaniatâd yn cael eu diweddaru, yn unol â GDPR.

Sicrhau bod Rhodd Cymorth yn cael ei hawlio lle bo'n briodol.



Mae Sefydliad Tir Gwyllt Cymru yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif 1158185
Wales Wild Land Foundation CIO is a Charity Registered in England and Wales Number 1158185

***Datblygu Prosiect***

Gweithio gyda chydweithwyr i nodi prosiectau newydd posibl ar gyfer Coetir Anian sy’n cyd-fynd â strategaeth yr elusen sydd wedi’i diweddaru.

Gweithio mewn partneriaeth ar draws y tîm i ddatblygu'r rhain, gan sicrhau eu bod yn cael eu dylunio a'u cyflwyno mewn ffyrdd a fydd yn gwneud y gorau o gyfleoedd ariannu.

***Cyffredinol***

Rheoli llwyth gwaith deinamig ac ymateb i flaenoriaethau cystadleuol a therfynau amser ariannu.

Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr i sicrhau bod yr holl incwm a godir yn cael ei gyfyngu'n briodol mewn cyllidebau a chyfrifon a bod gwariant yn cael ei ddyrannu'n gywir.

Darparu diweddariadau misol ar weithgarwch ac incwm i'r Cyfarwyddwr er mwyn adrodd arnynt i'r Ymddiriedolwyr.

Cydymffurfio â Chod Ymarfer y Sefydliad Codi Arian a chyfraith codi arian elusennau.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn arferion codi arian.

Ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i'r rôl.

***Cyfrifoldebau cyffredinol***

Mynychu cyfarfodydd staff a chyfarfodydd eraill.

Cefnogi a chyfrannu at amcanion ehangach yr elusen.

Bod ag ymrwymiad cryf i amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.

Bod yn barod i weithio rhai dyddiau penwythnos.

Bod yn barod i aros i ffwrdd dros nos o bryd i'w gilydd at ddibenion gwaith.



Mae Sefydliad Tir Gwyllt Cymru yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif 1158185
Wales Wild Land Foundation CIO is a Charity Registered in England and Wales Number 1158185